
Llwybrau Hyrwyddedig Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

# Rhaeadr Fawr, Abergwyngregyn

MYNEDIAD I BAWB




### Trosolwg o'r Daith

- Pellter: 4km (2.5 milltir)
- Hyd: ¾ awr
- Math o daith: Yno ac yn ôl

### ⚠ Cyn i chi gychwyn

Darllenwch y wybodaeth diogelwch a graddio llwybrau ar wefan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri cyn i chi gychwyn ar eich taith.

eryri.llyw.cymru




V-20231127/2158

1




Dechreuwch eich taith trwy groesi pont fechan sy'n arwain at giât lydan. Mae'r man cychwyn hwn yn hygyrch. Bydd arwydd yn nodi llwybr 'Addas i gadeiriau gwthio'.

2




Parhewch ar hyd y llwybr, gan ddilyn yr arwyddbyst melyn, nes i chi gyrraedd cwt pren. Parhewch heibio'r cwt a thrwy'r giatiau llydan.

3




Wrth i'r llwybr ddechrau esgyn, fe ddowch at ardal laswelltog a gwastad. Dyma gyfle i fwynhau'r olygfa i lawr y dyffryn. Ymhen dim, byddwch yn cyrraedd Bwthyn y Nant ar y chwith.

4




Bydd y llwybr yn parhau a byddwch yn mynd heibio dwy giât haearn.

5



Dilynwch y llwybr amlwg am tua 0.5km nes i chi gyrraedd fforch. Cadwch i'r dde yma i barhau ar hyd y llwybr hygyrch.

6



Ewch drwy giât fetel fechan a dilynwch y llwybr amlwg.

7



Gall y llwybr fod braidd yn arw yma. Yn fuan byddwch yn cyrraedd y rhaeadr. I ddychwelyd, dilynwch eich camau yn ôl i'r maes parcio.